Julie James
**Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

25 Hydref 2019

Datblygiad Celestia, Bae Caerdydd

Annwyl Julie,

Yn dilyn eich datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 22 Hydref, rwy'n amgáu'r ohebiaeth y soniais amdano, ac a anfonwyd at y Pwyllgor i dynnu ei sylw at y problemau a ddaeth i'r amlwg yn ddiweddar mewn perthynas â datblygiad Celestia ym Mae Caerdydd.

Llythyr gan un o aelodau Grŵp Gweithredu Celestia yw hwn, ac mae'r Grŵp hwn hefyd wedi bod yn mynegi eu pryderon yn ddiweddar yn y wasg.

Mae'n dweud bod Asesiad Risg Tân Math 4 wedi'i gynnal yn ddiweddar ar y datblygiad a bod hwn wedi amlygu pryderon ynghylch diogelwch tân: "no effective fire stopping exists in the compartment wall between each flat and the common corridor."

Dyma'r ail adeilad y mae'r Pwyllgor wedi cael clywed amdano sydd â diffygion sylfaenol mewn perthynas â diogelwch tân. Mae ein hadroddiad ar ddiogelwch tân mewn adeiladau uchel iawn yn cyfeirio at yr adeilad cyntaf, ac mae hyn yn cadarnhau barn y Pwyllgor a'i argymhellion yn yr adroddiad. Un o'n hargymhellion hyn oedd "bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i "ymarferoldeb ehangu'r defnydd o arolygon manwl lefel pedwar ar gyfer yr holl adeiladau preswyl uchel iawn." Er i Lywodraeth Cymru dderbyn yr argymhelliad hwn 'mewn egwyddor', nid yw wedi ymdrin yn uniongyrchol â'r mater eto. Yn eich datganiad, dywedasoch fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried sut i gynyddu capasiti i

ymgymryd â gwaith o'r fath. A allech chi roi rhagor o fanylion ynghylch faint o amser rydych yn disgwyl i hyn ei gymryd?

Hefyd, ers i'r Pwyllgor drafod y llythyr hwn, rydym wedi cael gohebiaeth gan Andrew RT Davies AC sydd hefyd yn gysylltiedig â datblygiad Celestia. Mae'r llythyr hwn wedi'i atodi. Rwyf wedi anfon copi o'r llythyr hwn ato ef.

A fyddech cystal ag anfon rhagor o fanylion am eich trafodaethau â'r asiant rheoli a'r datblygwyr mewn perthynas â'r problemau yn Celestia?

Edrychwn ymlaen at drafod y materion hyn â chi ymhellach yn ystod ein cyfarfod pwyllgor ar 21 Tachwedd.

Yn gywir,

John

John Griffiths

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Amgaeedig: Gohebiaeth ddienw ynghylch datblygiad Celestia ym Mae Caerdydd.

Cc: Andrew RT Davies AC, Canol De Cymru